

Adroddiad materion gwefan Clwb Mynydda Cymru – Tachwedd 2021


Bu'n flwyddyn heriol i'r clwb, fel i bawb arall. Ond, bu'r gallu i grwydro am ran o'r flwyddyn yn werthfawr i lawer. Cofnodwyd hanesion 60 o deithiau ar y wefan ers y cyfarfod (rhithiol) diwethaf fis Tachwedd 2020.

Bu'r wefan yn ddefnyddiol i gysylltu ag aelodau (a darganfod aelodau newydd), yn enwedig pan oedd angen diweddarau gwybodaeth am deithiau – weithiau ar y funud olaf. Mae'r wefan yn dal yn gydnaws â ffonau clyfar a llechi *iOS* ac *Android* yn ogystal a porwyr ar bob math o gyfrifiaduron.

Bellach, mae dros 8,100 o luniau o hanesion y teithiau yn ôl i 2005 gan aelodau'r clwb, i gyd ar gael drwy'r wefan ar lwyfan *Flickr*. Gall aelodau lawrlwytho y rhain ar gyfer defnydd personol.

Cofnodir manylion defnydd pob rhan o wefan y Clwb gan *Google Analytics*. Golyga hyn fod gennym wybodaeth hynod o gyflawn o sut mae'r wefan yn cael ei defnyddio, gyda dadansoddiad manwl o'r defnyddwyr (ond dim manylion personol ar gael) gan gynnwys yr offer a ddefnyddir.






Ers Tachwedd 2020, bu 41,034 ymweliad â'r wefan gan 4,696 o ddefnyddwyr (y rhan fwyaf o'r DG a nifer o'r UDA a rhai o wledydd eraill). Bu'r defnydd yn weddol gyson drwy'r flwyddyn, ond yn dawelach yn ystod y cyfnod clo a phlegynau pryd roedd gweithgaredd gan y Clwb.

Cofied fod tudalen Newyddion ar y wefan ac fod croeso i bawb ddanfôn manylion neu hanes o unrhyw beth all fod o ddiddordeb i'r aelodau. Cyhoeddwyd teyrngedau i ddau o aelodau'r clwb ers ei sylfaenu, a fu farw yn ystod y flwyddyn, sef Gareth Pierce a Dafydd Prydderch Williams.

Mae ein cyfrifon Gweplyfr (*Facebook*), Trydar (*Twitter*) ag *Instagram* yn dal yn weithgar, i gyd yn cyd-lynu efo'r wefan. Cyhoeddir pob gweithgaredd – ynghyd a dolen i unrhyw adroddiad ar y wefan – ar y Gweplyfr. Gall unigolion ychwanegu eu lluniau neu sylwadau eu hunain at rhain, yn ogystal a'r cyfrifion Trydar ag *Instagram*.



Oherwydd cymorth gan Rhys Jones, Waunfawr, (a diolch arbennig iddo) darparwyd “ap” ar gyfer systemau *iOS* ac *Android* (ffonau clyfar a llechi) sy'n cysylltu'n uniongyrchol a rhwydd â thudalennau gwefan y Clwb. Gellir lawr lwytho'r “ap” o safleoedd “apiau” *iOS* ac *Android* – cyfarwyddiadau ar y wefan.

Diolch i bawb a gyfranodd adroddiadau/hanesion a lluniau ar gyfer y wefan yn ystod y flwyddyn. Mae'n gofnod arbennig o'n gweithgareddau. Daliwch ati!

Iolo ap Gwynn 30/10/2021

Ysgrifennydd y wefan